

Ysbyty Gwynedd Adran Achosion Brys



**Yn dod â'ch diweddariad misol ar y gwaith
gwella yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd**



Yn y rhifyn hwn:

Ymweliad yr Ysgrifennydd Dros Iechyd

Cefnogaeth Iechyd Meddwl

Adroddiad cynnydd

Ymweliad yr Ysgrifennydd Dros Iechyd



Yn ddiweddar, ymwelodd yr Ysgrifennydd Cabinet Dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr Adran Achosion Brys i weld y canlyniadau wedi i ail gam y gwaith gael ei gwblhau.

Cyfarfu Mr Vaughan Gething â nifer o staff ac fe ymwelodd â chartref dros dro yr Uned Digwyddiadau Mawr yn ogystal â'r ystafell adfywio dros dro, ble mae ein cleifion sydd ag argyfwng critigol neu sy'n peryglu bywyd yn cael gofal.

Cyfarfu hefyd ag aelodau'r Gwasanaeth Castio a thîm yr Uned Mân Anafiadau er mwyn gweld eu hystafell blaster ac ystafell triniaeth newydd. Roedd Mr Gething yn falch o ddysgu sut mae'r mannau newydd a'r mannau aros yn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnal i gleifion.

Roedd Mr Gething hefyd yn falch o weld Bloc Gweinyddol pwrpasol newydd yr Adran Achosion Brys sy'n cynnwys llyfrgell bwrpasol, ystafelloedd hyfforddiant yn ogystal â chyfleusterau cawod a newid newydd i staff.





“Roeddwn yn falch iawn o weld sut mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i’r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd yn ystod fy ymweliad. Roedd yn dda siarad â’r rhai sy’n gweithio yno a’u clywed yn dweud bod y buddsoddiad wedi gwneud gwelliannau mawr iddynt hwy ac i brofiad cyffredinol y cleifion.”

Vaughan Gething, Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Drosodd atoch chi...

Rydym bob amser yn falch i gael adborth am Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd a’n gwasanaethau. Dyma enghraifft o beth mae pobl wedi bod yn ei ddweud y mis hwn.

f “Cefais fy rhuthro i’r ystafell adfywio ar ôl cael poenau yn y frest yn sydyn – staff anhygoel a oedd yn fy nghefnogi ac yn egluro popeth”

f “Cafodd fy mam ei rhuthro i’r ysbyty ar ôl codwm ac roedd y gofal a gawsom yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd yn wych. Er bod yr amser yn bryderus iawn roedd y staff yno i’n cefnogi. Mae fy mam yn awr yn well diolch i chi gyd!”

t “Diolch yn fawr iawn am eich holl help – nid wyf i byth yn teimlo’n iawn ond rwy’n gwella. Rydych i gyd yn gwneud gwaith gwych, a gwerthfawrogir hyn.”

Cefnogaeth Iechyd Meddwl – Canolfan MIFEDRAF



"Rwyf eisiau canmol y Gwasanaeth MIFEDRAF - credaf ei fod yn syniad da iawn i gael y ganolfan yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd. Mae'n braf cael rhywun i siarad gydag ef pan rydych yn cael trafferth gydag iechyd meddwl." - Defnyddiwr Gwasanaeth.

Nid yn unig y tu mewn i'r Adran Achosion Brys sydd wedi gweld newidiadau – mae tîm newydd o wirfoddolwyr ymroddedig wrth law i gynnig cefnogaeth i unigolion sy'n dod i'r Adran gyda gofid emosiynol.

Mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n agos gyda staff meddygol yr Adran Achosion Brys ers i'r gwasanaeth gael ei gyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn ac maent ar gael rhwng 7pm -2am 7 noson yr wythnos.


Dywedodd Dr Rio Talbot, Meddyg Ymgynghorol yn yr Adran Achosion Brys: "Rydym wedi datblygu perthynas agos â gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Mi Fedraf ers i'r gwasanaeth ddechrau'r llynedd.

"Mae'n wych gweld y gwirfoddolwyr yn rhoi eu hamser i gynnig gwasanaeth sy'n wirioneddol helpu'r rhai sydd mewn argyfwng.

"Mae gan y gwirfoddolwyr gyfoeth o wybodaeth a gallant arwain cleifion at nifer o wahanol wasanaethau a grwpiau cefnogi sydd ar gael.

"Oherwydd natur brysur yr Adran Achosion Brys, mae amser yn beth prin felly mae cael y gwasanaeth Mi Fedraf ar gael yn golygu eu bod yno i siarad â'r rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn ein cymuned."

Adroddiad Cynnydd



Mae cam 3 y prosiect yn awr yn mynd rhagddo ac mae'r tîm yn 'Interserve Construction' yn brysur yn gweithio ar yr ardal adfywio a digwyddiadau mawr yn yr ardal lle'r oedd Ward Beuno gynt.

Mae'r waliau mewnol wedi'u gosod ac mae'r gwaith o osod gosodiadau mecanyddol a thrydanol yn datblygu'n dda.

Mae coridor newydd yn awr yn arwain at yr ystafell blaster newydd ynghyd â drws newydd a fydd yn cael ei agor i'r cyhoedd ar ddiwedd y prosiect.

